**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, Y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Delyth.Jewell@senedd.cymru

17/11/2023

Annwyl Gadeirydd,

**Addysg ôl-orfodol a'r Gymraeg: llais y dysgwyr**

Heddiw rwyf yn cyhoeddi adroddiad ymchwil i brofiadau dysgwyr ôl-16 mewn addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog mewn ysgolion a cholegau addysg bellach ledled Cymru. Cyfrannodd dros 1,000 o bobl ifanc at yr ymchwil, sydd yn darparu dealltwriaeth werthfawr o'u barn a'u profiadau, gan gynnwys eu rhesymau dros ddewis addysg cyfrwng Cymraeg, eu barn am y ddarpariaeth a'u bwriad o safbwynt eu haddysg a'u gyrfaoedd yn y dyfodol.

Cyflwynir y prif ganfyddiadau isod ac atodir copi o'r adroddiad llawn er gwybodaeth i chi.

**Prif ganfyddiadau'r ymchwil:**

- Mae mwyafrif y siaradwyr Cymraeg dros 16 oed a holwyd mewn ysgolion a cholegau addysg bellach yn falch eu bod yn gallu siarad Cymraeg, ac yn ystyried yr iaith yn fantais ar gyfer eu rhagolygon gyrfaol.
- Mae cyfleoedd i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysig i siaradwyr Cymraeg wrth ddewis man astudio, yn ogystal â chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o fywyd pob dydd yr ysgol neu'r coleg.
- Mae mwyafrif y dysgwyr a holwyd mewn ysgolion a cholegau addysg bellach yn dweud bod eu profiad o addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn dda neu'n dda iawn.
- O'r siaradwyr Cymraeg sy'n bwriadu parhau â'u haddysg ar ôl gadael yr ysgol neu'r coleg, 40% yn unig sy'n bwriadu aros yng Nghymru. I siaradwyr Cymraeg sy'n bwriadu parhau i astudio yng Nghymru, bydd y cyfle i astudio yn Gymraeg neu yn ddwyieithog yn ffactor pwysig wrth ddewis eu man astudio nesaf.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

- Mae’r ymchwil yn amlygu gwahaniaethau rhwng dysgwyr ysgol a choleg, o ran eu canfyddiad o’u gallu yn y Gymraeg, cyfrwng iaith eu haddysg a’u hagweddau at bwysigrwydd y Gymraeg.
- Prif resymau dysgwyr dros beidio â dewis astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg oedd:
  - y canfyddiad bod eu sgiliau Saesneg yn gryfach a bod astudio trwy gyfrwng y Saesneg yn haws iddynt;
  - nad oedd pwnc (neu bynciau) ar gael yn Gymraeg;
  - y canfyddiad bod eu hastudiaethau pellach yn debygol o fod yn Saesneg neu fod gwell rhagolygon astudio yn Saesneg.

Daw’r adroddiad i’r casgliad y bydd angen ystyried yn ofalus sut mae cefnogi a chryfhau’r ddarpariaeth Gymraeg yn y sector addysg ôl-16, yn enwedig yng nghyd-destun datblygu sgiliau iaith gweithlu’r dyfodol.

Gobeithiwn y bydd yr ymchwil hwn yn cyfrannu at ddatblygu ac ehangu addysg ôl-16 trwy gyfrwng y Gymraeg, a thrwy hynny gynyddu cyfleoedd pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a defnyddio’r iaith mewn addysg a thu hwnt. Gobeithiwn felly gyfrannu at gyrraedd targedau strategaeth Cymraeg 2050.

Hyderwn y bydd yr adroddiad o ddiddordeb i chi a byddem yn croesawu cyfle i’w drafod ymhellach.

Yr eiddoch yn gywir,

**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg

Copi at: SeneddDiwylliant@senedd.cymru